

% o'r holl weithgaredd yn ystod y chwarter hwn sy'n berthnasol i'r sector llaeth

42% O WEITHGAREDD LLAETH

1,668 O FFERMWYR LLAETH O GYMRU WEDI COFRESTRU GYDA CYSWLLT FFERMIO



Prosiectau Safleoedd Arddangos

Lleihau cloffni yn y fuches laeth


Mae safle arddangos Graig Olway yn gweithio tuag at leihau cloffni yn ei buches a bydd y fferm yn gweithredu Rhaglen Traed Iach AHDB gyda chymorth eu milfeddyg lleol, Sara Pedersen, er mwyn gwneud hynny. Cafodd symudedd y gwartheg ei sgorio ar ddechrau mis Ionawr, a chawsant eu harchwilio ar gyfer arwyddion gweledol o ddermatitis digidol.



Yn ystod yr wythnos wedyn, cafodd y gwartheg eu hasesu yn y craets traed i weld sut oedd asesiadau gweledol wrth y rhwystr porthi'n cymharu gydag archwiliad mwy manwl yn y craets. Mae'r broses o sgorio symudedd yn parhau bob pythefnos i ganfod unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl a bydd canlyniadau'n cael eu casglu ynghyd yn ddiweddarach eleni.

Tywydd gwlyb yn ei gwneud hi'n anodd gwneud penderfyniadau ynglŷn â throï anifeiliaid allan ar fferm Erw Fawr

Er gwaetha'r isadeiledd da er mwyn galluogi anifeiliaid i bori'n gynnar, mae'r tywydd gwlyb, ansefydlog diweddar wedi ei gwneud hi'n anodd iawn gwneud penderfyniadau ynglŷn â throï anifeiliaid allan yn gynnar ar fferm Erw Fawr. Cwblhawyd taith gerdded ar draws y borfa ar 18 Chwefror i fesur gorchudd cychwynol y fferm, gan gwblhau cynllun ar gyfer cylchdro'r gwanwyn, gyda'r bwriad o droi'r anifeiliaid allan ar 1 Mawrth. Bydd hyn yn sicrhau bod bron i'r holl badogau wedi cael eu pori cyn y dyddiad cydbwysu, lle mae twf y glaswellt yn bodloni gofynion y fuwch. Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos faint o'r borfa mewn hectarau (ha) y dylid ei phori bob dydd a'r canran i'w bori erbyn diwedd bob wythnos. Trwy ddilyn y cynllun hwn, dylai'r ail gylchdro ddechrau ar 13 Ebrill, gyda hyd y cylchdro'n lleihau o 100 diwrnod i 18 diwrnod.



Wythnos	Ha/Diwrnod	Targed Ha wedi'i bori erbyn diwedd yr wythnos	% Targed	Gwirioneddol Ha wedi'i bori erbyn diwedd yr wythnos	% Gwirioneddol	Targed Gorchudd ar ddechrau'r wythnos	Gorchudd Gwirioneddol
01/03-07/03	0.51	3.57	7.0			2300	
08/03-14/03	0.61	7.84	15.4			2220	
15/03-21/03	0.76	13.16	25.8			2140	
22/03-28/03	1.00	20.16	39.5			2060	
29/03-04/04	1.48	30.52	59.8			1980	
05/04-11/04	2.83	50.33	98.7			1900	
12/04-18/04	2.83	70.14	137.5			1820	

Disgwylir cyrraedd dechrau'r ail rownd ar 13/4/2020

Gwella ffrwythlondeb mewn system sy'n lloia mewn dau floc ar fferm Nantglas

Mae safle arddangos Nantglas yn defnyddio technoleg er mwyn canfod pan fo buwch yn gofyn tarw gyda'r nod o dynhau'r patrwm lloia. Gosodwyd coleri i fonitro gweithgaredd ar y gwartheg ym mis Ebrill 2020. Mae patrymau cylchredu'r gwartheg yn cael eu monitro'n barod i ddechrau ffrwythloni ym mis Mai. Bydd yr heffrod yn cael eu cydamseru gan ddefnyddio chwistrelliad prostaglandin i ddod â'r dyddiadau lloia i ddechrau'r cyfnod lloia.



Cynhaliwyd profion gwaed ar fferm Nantglas i asesu a oedd y gwartheg yn derbyn digon o fwynau ychwanegol ac a oedd y dogn yn bodloni gofynion dyddiol.

Rhif y fuch	NEFA $\mu\text{mol/l}$	Magnesiwm $\mu\text{mol/l}$	Copr $\mu\text{mol/l}$	SGH-PX (seleniwm) $\mu\text{ML rbc}$
94	1076	1.0	8.6	177.1
777	188	1.0	9.3	201.9
620	177	0.9	7.4	108.5
799	219	1.01	9.0	166.6
38	258	0.9	10.0	189.2
137	477	0.8	15.5	166.8
824	174	0.7	9.5	184.5
781	220	0.9	8.4	85.8
136	820	0.9	7.3	128.6
823	259	1.0	9.7	166.3

Mae'r canlyniadau'n dangos bod yr elfennau hybrin o fewn yr ystod dderbyniol, heblaw am fuch 924 sydd â lefel magnesiwm ychydig yn is. Ar y cyfan, roedd y strategaeth ar gyfer ychwanegu mwynau'n gweithio'n dda.

Roedd lefelau NEFA (asidau brasterog heb eu hesteru) yn uchel yn achos buwch 94 a 136. Mae'r crynodiad NEFA yn adlewyrchu statws egni'r fuch gyda chanlyniadau uchel yn dangos bod y fuch mewn cydbwysedd egni negyddol. Roedd modd egluro'r sefyllfa ar gyfer y ddwy fuch yma oherwydd llai o gymeriant bwyd wrth i'r fuch agosáu at loia. Byddant yn cael eu monitro'n ofalus dros y cyfnod trosi.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau Technegol a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- CERBYDAU AWYR DI-GRIW (UAVS) – GOLWG O'R AWYRYM MAES AMAETHYDDIAETH
- STRATEGAETHAU A THECHNOLEGAU I SICRHAU LLAI O GLOFFNI YMHLITH GWARTHTEG
- CARBON A NEWID HINSAWDD – TROSOLWG
- A ALL FFERMIO MANWL GWIR HELPU I LINIARU NEWID HINSAWDD?

Grwpiau Trafod

CYNHALIWYD **32** gyda **394** O GYFARFODYDD GRWPIAU TRAFOD LLAETH O FFERMWYR

Nifer y Grwpiau Trafod Llaeth: 18

Gwella diagnosis a thriniaeth ar gyfer llyngyr gastroberfeddol mewn gwartheg

Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â chyfraddau twf isel mewn heffrod llaeth, mae tair fferm laeth yng Ngheredigion yn ymchwilio i reolaeth parasitiaid gan ganolbwyntio ar leihau datblygiad ymwrthedd i driniaeth llyngyr.

Mae rownd gychwynnol o brofion ar gyfer ymwrthedd i unrhyw un o'r cynhyrchion a ddefnyddir yn aml wedi amlygu rhai problemau fel y nodir yn y tabl isod.

Fferm	Triniaeth Llyngyr (grŵp)	FEC cyfartalog ar y dechrau	FEC cyfartalog ar y diwedd	% Lleihad	Hyder
Pentrefelin	BENZIMIDAZOLE ORAL (IBZ)	323	1	100%	Uchel
Pentrefelin	IVERMECTIN Injectable (3ML)	153	29	81%	Uchel
Henbant	LEVAMISOLE Oral (2LV)	43	1	98%	Isel
Henbant	IVERMECTIN Injectable (3ML)	50	28	44%	Canolig
Henbant	IVERMECTIN Pour-On (3ML)	33	30	8%	Canolig
Henbant	MOXIDECTIN Injectable (3ML)	29	4	86%	Isel








Os mae % y lleihad mewn cyfrif wyau ysgarthol yn fwy na 95%, ceir hyder bod y cynnyrch wedi gweithio'n effeithiol, ond mewn nifer o achosion, roedd % y lleihad yn llawer is na hyn. Mae gan y ffermydd bellach wybodaeth newydd ynglŷn â'r triniaethau llyngyr sy'n gweithio ar eu ffermydd a gellir datblygu strategaethau rheoli newydd gyda'u milfeddygon.

Mae gwaith yn cael ei wneud i fonitro cyfraddau twf dan y strategaethau rheoli newydd, yn ogystal ag i ymchwilio i weld pa rywogaeth llyngyr sy'n bresennol ar wahanol adegau drwy'r flwyddyn.

Cymorthfeydd

Cynhaliwyd **42** gymorthfeydd



 Marchnata ac Arallgyfeirio	 Tir Glas
 Cynllunio Digidol	 Cyfreithiol
 Rheoli Staff	 Iechyd Anifeiliaid
 Cynllunio Busnes	Mynychodd 17 unigolyn o'r sector llaeth y cymorthfeydd yma

Agrisgôp

CYNHALIWDYD **20** CYFARFOD AR THEMA LLAETH

91 O FYNICHWYR

Roedd themâu'r grwpiau'n cynnwys:

 Llygredd Amaethyddol	 Marchnata cynnyrch llaeth
--	---

Gweithdai Iechyd a Lles Anifeiliaid

CYNHALIWDYD **32** GWEITHDY gyda **422** CYNHALIWDYD

Gweithdai a gynhaliwyd:

 TB Buchol	 Dolur Rhydd Ffyrsol Gwartheg (BVD)
 Lleihau Cloffni mewn Gwartheg Llaeth	 Lleihau Mastitis mewn Gwartheg Llaeth
 Deall Clefyd Johne	 Ymwrthedd i driniaethau gwrthfotig

Rhaglen Fentora

93 FFERMWR LLAETH



yn cael eu mentora ar hyn o bryd.



Cliciwch [yma](#) i weld y Cyfeirlyfr Mentora.

Mentor

3 DARPARWR LLAETH NEWYDD

3 CEISIWR LLAETH NEWYDD

3 PARTNERIAETH LLAETH NEWYDD WEDI CAEL EU CANFOD YN YSTOD Y CHWARTER

6 PARTNERIAETH LLAETH

yn derbyn cefnogaeth ar hyn o bryd drwy'r Gwasanaeth Cyngori
2 fenter newydd ar y cyd wedi cael eu sefydlu drwy'r rhaglen Mentora yn ystod y cyfnod hwn.


Cyfloedd sydd ar gael ar hyn o bryd:

Nifer o gyfloedd sydd ar gael:



4 UNED LAETH

Cyfanswm y tir sydd ar gael:




542 HECTAR (UNEDAU LLAETH YN UNIG)

Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd **77** achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i'r sector llaeth.

Mae'r siart isod yn rhoi crynodeb o'r unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ôl categori yn ystod y cyfnod hwn.

Unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ôl categori



Y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob categori oedd:

 BUSNES	CYNLLUNIO A DATBLYGU BUSNES
 DA BYW	DIY AI A THRIMIO TRAEU GWARTHeg
 TIR	DEFNYDDIO TRYC CODI AR DIR GARW

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

 CYNLLUNIO A CHYLLID	 LLEIHU LLYGREDD AMAETHYDDOL
 GWELLIANNAU GENETEG DA BYW	 CLEFYD JOHNE MEWN GWARTHeg

Cliciwch [yma](#) i fynd i'r wefan.

Rhai o'r prif uchafbwyntiau ar ein **Gwefan** a'n sianeli **Cyfrngau** **Cymdeithasol** yn ddiweddar...

Facebook 16/04/2020

Bu Rhys Davies, Swyddog Technegol Llaeth Gogledd Cymru'n rhoi trosolwg o'r arferion rheoli wrth droi o'r rownd gyntaf i'r ail rownd o bori cylchdro ar ei fferm yn Sir y Fflint #EinFfermydd

Cliciwch [yma](#) neu ar y sgrin deledu i wyllo.

Cyrhaeddiad: 2,243

Nifer a wylodd y fideo: 927

Hoffi, sylwadau a rhannu: 24

